

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
DYDDIAD:	14 Mawrth 2024
LLEOLIAD:	O bell trwy gynhadledd fideo
TEITL:	Canllawiau Statudol ac Anstatudol ar ddemocratiaeth o fewn prif gynghorau
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Er gwybodaeth

### Cefndir

Dyma ganllawiau statudol a gyhoeddir o dan adran 38 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, fel y'i diwygiwyd gan adran 45 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 -

[Canllawiau statudol ar ddemocratiaeth o fewn prif gynghorau | LLYW.CYMRU](#) **Atodiad 1. Mehefin 2023**

Daethpwyd â hyn i'r pwyllgor am y tro cyntaf ar **24.1.24** er gwybodaeth.

Ym mis Awst 2023 cafwyd diweddariad i'r adran a amlygwyd mewn melyn ar **Atodiad 1 Rhan 4 Llywodraethu a Chraffu (tudalennau 143-151)**.

Cafwyd gwelliant yn y ffaith bod paragraff ychwanegol wedi'i ychwanegu yn fersiwn Awst 2023 sy'n ymwneud â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol sydd bellach yn darllen fel a ganlyn:

'Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn ddogfen sy'n nodi trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau a llywodraethu. Mae'r AGS yn gynnyrch adolygiad o lywodraethu'r cyngor a gynhaliwyd gan uwch swyddogion. Nid oes unrhyw rhwymedigaeth ar gynghorau Cymru i baratoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Gan nad oes rhwymedigaeth gyfreithiol i baratoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol, nid yw Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau statudol ar y mater hwn. Er hyn, gall Cynghorau ystyried sut y gellir defnyddio AGS fel offeryn ar gyfer gwelliant corfforaethol ehangach; gellir ei ddefnyddio i werthuso cryfderau a gwendidau'r fframwaith llywodraethu ac fel rhan o gynllun gweithredu blynyddol, ymgymryd â newidiadau y cytunwyd arnynt yn unol â hynny.'

Rhannwyd y testun ychwanegol gyda'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.

### Y Sefyllfa Bresennol

1)Cynigir y bydd dylanwad/effaith y testun ychwanegol hwn sy'n ymwneud â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei ystyried, a'i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

2)Mae swyddogion yn bwriadu adolygu templed y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2024-25

## **ARGYMHELLIAD / ARGYMHELLION:**

Gofynnir i'r Pwyllgor:

- i. Nodi cynnwys yr adroddiad hwn a rhannau'r Canllawiau sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn benodol y testun ychwanegol mewn perthynas â'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol.

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:** I nodi'r canllawiau Statudol ac anstatudol o fewn prif gynghorau.

**Atodiadau:** Canllawiau Statudol ac Anstatudol ar ddemocratiaeth o fewn prif gynghorau (**Atodiad 1**)

**Pennaeth y Gwasanaeth:** Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Gwasanaethau Llywodraethu a Chyfreithiol / Swyddog Monitro

**Swyddog Adrodd:** Katy Sinnett-Jones – Swyddog Llywodraethu

27.02.2024

**Dyddiad:**